Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Rhestr Termau

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English

**www.medr.cymru**

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Rhestr Termau Medr

DRAFT

**Adolygiad Gwella Ansawdd**
Asesiad sicrwydd ansawdd allanol darparwyr addysg uwch a gynhelir gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) yng Nghymru. Y dull adolygu cyfredol ar gyfer darparwyr addysg uwch rheoleiddiedig yw'r adolygiad Gwella Ansawdd, a defnyddir Adolygiad Ansawdd Porth ar gyfer darparwyr sy'n dymuno dod yn rheoleiddiedig.

**Adolygiadau Datblygiadol/Daearyddol/Thematig**
Cynhelir yr adolygiadau hyn at ddibenion gwella'n barhaus, ac nid ydynt yn arwain at farn grynodol. Gallant fod yn thematig (h.y. ar faes ffocws penodol fel maes pwnc, neu faes polisi penodol), neu'n ddaearyddol (o fewn rhanbarth penodol). Gallant gynnwys canfyddiadau a chasgliadau ymgysylltiadau lluosog a all, o'u hystyried yn holistaidd, ddatgelu patrymau neu dueddiadau, megis achosion sylfaenol.

**Adolygiadau Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA)**
Ar gyfer darparwyr a arolygir gan Estyn neu a adolygir gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA), mae'r asesiadau allanol hyn yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o ansawdd, arweinyddiaeth a deilliannau dysgwyr. Nid yw Medr yn dyblygu'r prosesau hyn ond bydd yn ystyried eu deilliannau lle y bo'n berthnasol i'n hamodau a'n swyddogaethau rheoleiddio ni. Pan fydd Estyn neu QAA yn adnabod pryderon sylweddol, efallai y byddwn yn gofyn am sicrwydd pellach gan y darparwr neu'n archwilio a ddynodir unrhyw fater cydymffurfio.

**Adolygydd Penderfyniadau**
Person neu banel annibynnol a benodir gan Weinidogion Cymru i adolygu rhai penderfyniadau rheoleiddiol penodol a wneir gan Medr, megis gosod amodau parhaus neu gyfarwyddydau penodol. Mae'r Adolygwr Penderfyniadau'n ystyried sylwadau gan ddarparwyr a gall argymell bod Medr yn ailystyried ei benderfyniad yn seiliedig ar degwch gweithdrefnol, tystiolaeth newydd, neu gymesuredd.

**Adroddiad Archwilio Mewnol sy'n rhoi Sicrwydd Negyddol**
Ar hyn o bryd, nid oes terminoleg benodol i ddiffinio adroddiad archwilio mewnol sy'n rhoi sicrwydd negyddol, am fod rhwydd hynt i bob swyddog archwilio gweithredol ddiffinio'r

meini prawf a'r iaith ar gyfer eu barn archwilio. Gall darparwyr gadarnhau'r derminoleg a ddefnyddir i ddiffinio eu lefelau sicrwydd gyda'u swyddog archwilio gweithredol.

### Addas at y Diben

Ymadrodd a ddefnyddir i ddynodi bod system, proses, polisi, neu gynllun yn ddigon cadarn, priodol ac effeithiol i ateb ei d(d)iben rheoleiddiol neu addysgol.

### Aflonyddu

Ystyr aflonyddu yw'r ystyr a roddir yn Adran 26 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Adran 1 o Ddeddf Amddiffyn rhag Aflonyddu 1997 ac Adran 24 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

### Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Term statudol a ddiffinnir yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, sy'n cyfeirio at ddysgwyr y mae arnynt angen ddarpariaeth addysgol ychwanegol neu wahanol oherwydd anhawster dysgu neu anabledd. Yn y sector addysg drydyddol, mae hyn yn cynnwys dysgwyr mewn darparwyr addysg bellach ac arnynt angen cymorth wedi'i deilwra i gael mynediad at eu haddysg a chael budd ohoni. Cydlynir y ddarpariaeth ar gyfer ADY trwy Gynllun Datblygu Unigol (CDU), sy'n amlinellu anghenion, strategaethau cymorth a deilliannau'r dysgwr. Mae'r Ddeddf yn disodli'r fframwaith AAA blaenorol ac yn hybu dull unedig, sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ar draws pob lleoliad addysgol, gan sicrhau cymorth parhaus wrth i ddysgwyr bontio i addysg ôl-16.

### Anghenion Rhesymol

Diffinnir y rhain yn y Ddeddf fel 'anghenion rhesymol y rheini sy'n cael yr addysg neu sy'n ymgymryd â'r cwrs'. Bydd y rhain yn newid dros amser (e.e. mae cyflwyno technoleg wedi newid profiad dysgwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf). Bydd Medr yn defnyddio ansawdd da fel dirprwy ar gyfer anghenion rhesymol.

### Amgylchedd Sicrwydd

Fframwaith systemau archwilio mewnol ac allanol, rheoli risg a chydymffurfedd sy'n darparu hyder yn uniondeb ac effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a gweithrediadau darparwr. Mae hyn yn cynnwys ymlyniad wrth safonau archwilio, annibyniaeth archwilwyr, a mecanweithiau ar gyfer adnabod gwendidau a mynd i'r afael â hwy.

### Amod Cofrestru

Gofyniad rheoleiddiol y mae'n rhaid i ddarparwr ei ateb er mwyn cael ei gynnwys ar Gofrestr Medr. Mae'r amodau hyn yn sicrhau bod darparwyr yn cyrraedd safonau gofynnol mewn rhai meysydd. Gall amodau cofrestru fod yn gychwynnol (yn ofynnol ar adeg cofrestru) neu'n barhaus (yn ofynnol trwy gydol cyfnod y cofrestriad).

### Amod Cyllido

Gofyniad y mae'n rhaid i ddarparwr ei ateb er mwyn cael cyllid cyhoeddus gan Medr. Bydd amryw amodau cyllido yn berthnasol i ddarparwyr sy'n cael cymorth ariannol gan Medr, ni waeth beth fo'u statws cofrestru, ond gan ddibynnu ar natur yr addysg a ddarperir sydd yn cael ei chyllido.

DRAFT

### Ansawdd Da

Mae addysg o ansawdd da yn diwallu anghenion rhesymol dysgwyr. Fe'i dangosir gan ddeilliannau cadarnhaol i ddysgwyr, yng nghyd-destun amrywiaeth y sector a chorff y dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys:

- cwblhau cwrs, ennill cymwysterau, a dilyniant i gyflogaeth neu astudiaethau pellach
- profiad da i ddysgwyr, gan gynnwys mewn perthynas â dysgu ac addysgu, fel y dangosir gan ymgysylltiad dysgwyr â'u haddysg a'u bodlonrwydd arni
- mynd ar drywydd gwella'n barhaus trwy hunanasesu effeithiol ac ymateb i adborth.

Ystyrir bod addysg sy'n arddangos y nodweddion hyn yn werth da am gyllid cyhoeddus. Mae darpariaeth a ddarperir yn llwyr neu yn rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg wedi'i gwreiddio yn y dulliau hyn.

### Ansolfedd

Pan nad yw darparwr yn gallu talu ei ddyledion wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae methiant i dalu dyledion wrth iddynt ddod yn ddyledus yn meddu ar yr ystyr a roddir gan Adran 123 o Ddeddf Ansolfedd 1986, gan roi 'Medr' yn lle 'y llys' yn Adran 123(2).

### Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (NSS)

Mae'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr yn arolwg blynyddol ar lefel y DU o fyfyrwyr israddedig blwyddyn olaf sy'n casglu eu barn ar eu profiad dysgu. Defnyddir y canlyniadau i hysbysu darpar fyfyrwyr, cefnogi darparwyr i wella ansawdd profiad y myfyriwr, a chyfrannu at atebolrwydd cyhoeddus

### Arolygon Dysgwyr

Mae Medr yn defnyddio canfyddiadau o arolygon dysgwyr – gan gynnwys yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr ac unrhyw arolygon traws-sector yn y dyfodol – i gael mewnwelediad i brofiad, boddhad a phryderon dysgwyr. Gall canlyniadau'r arolygon hyn ddarparu dangosyddion defnyddiol ar gyfer ansawdd, tegwch a llesiant, yn enwedig pan gânt eu triongli â data arall. Gall canlyniadau'r arolygon hefyd oleuo ein blaenoriaethau thematig neu amlygu darparwyr lle y gallai ymgysylltu ychwanegol fod yn werthfawr.

### Arolygu

Sicrhau ansawdd yn allanol sy'n canolbwyntio ar wella a gwerthuso darparwyr trydyddol heblaw addysg uwch, a gynhelir gan Estyn. Manylir ar y trefniadau arolygu cylchol craidd yn y canllawiau ynghylch *Yr hyn* yr ydym yn ei arolygu a *Sut* yr ydym yn arolygu ar gyfer pob sector.

### Asesiad Effaith Integredig

Offeryn a ddefnyddir i werthuso effeithiau posibl polisïau a phenderfyniadau ar gydraddoldeb, y Gymraeg, hawliau, ac anfanteision economaidd-gymdeithasol.

### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Proses a ddefnyddir i werthuso sut y gall polisïau, arferion neu benderfyniadau effeithio ar wahanol grwpiau, yn enwedig y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, a sicrhau bod camau gweithredu'n hybu cydraddoldeb.

DRAFT

**Asesu Ansawdd yn Allanol**
Proses a gynhelir gan gorff sy'n annibynnol ar y darparwr i sicrhau ansawdd ac ysgogi gwelliant parhaus. Mae hyn yn cwmpasu adolygiadau ac arolygiadau. Cyhoeddir adroddiadau a byddant yn cadarnhau a yw'r ddarpariaeth yn cyrraedd safonau ansawdd.

**Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)**
Asiantaeth swyddogol y DU ar gyfer casglu, dadansoddi a lledaenu data am ddarparwyr addysg uwch, gan gynnwys cofnodion dysgwyr a staff.

**Athroniaeth Reoleiddiol**
Y dull trosfwaol sy'n arwain y modd y mae Medr yn rheoleiddio'r sector addysg drydyddol. Mae'n cyfuno cydymffurfedd seiliedig ar reolau â gwelliant sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau, gan annog darparwyr i fodloni safonau sylfaenol wrth ymegnïo i gyflawni rhagoriaeth. Mae'r athroniaeth yn pwysleisio cymesuredd, goruchwyliaeth sy'n seiliedig ar risg, a chyfrifoldeb sefydliadol, gan amcanu at feithrin diwylliant o hunanreoleiddio, tryloywder a gwelliant parhaus.

**Barn Ynglŷn â Risg**
Asesiad Medr o lefel y risg a amlygir gan asesiad cyffredinol o risg darparwr i gydymffurfio â'r amodau sy'n llywio dwyster a natur gweithgarwch i fonitro a goruchwylio'r darparwr hwnnw ym maes yr amod perthnasol neu'n gyffredinol. Bydd ein barnau ynglŷn â risg yn cael eu harwain gan dystiolaeth, yn ymatebol, ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

**Blwyddyn Bontio**
Pan fo Medr yn cyfeirio at flwyddyn bontio neu flwyddyn drosiannol, mae hyn yn cynrychioli'r cyfnod rheoleiddio pan fydd darparwyr yn dechrau cyd-fynd ag amodau'r Fframwaith Rheoleiddio tra bo rhai gofynion etifeddol (e.e. Cynlluniau Ffioedd a Mynediad ar gyfer addysg uwch) yn parhau i fod ar waith.

**Budd y Trysorlys**
Y budd digwyddiadol mewn darparwr a ddelir gan Medr, sy'n deillio o ddefnyddio arian y trysorlys, ar ffurf cyllid cyfalaf a ddarparwyd at ddiben penodol, i brynu neu ddatblygu ased. Gall llog o'r fath greu rhwymedigaeth ar y darparwr i ad-dalu'r grant, neu gydnabod rhwymedigaeth, ar ôl i amgylchiadau eithriadol penodol ddigwydd. Yng nghyd-destun y Fframwaith Rheoleiddio hwn, ystyr arian y trysorlys yw grant neu gymorth grant y Llywodraeth a dalwyd gan Medr a'r cyrff cyllido a’i ragflaenodd, y Cynghorau Ymchwil, Llywodraeth Cymru a’r Swyddfa Gymreig.

**Bydd Darparwyr Yn (neu Bydd Disgwyl Iddynt)**
Ymadrodd a ddefnyddir i ddisgrifio camau gweithredu neu ymrwymiadau y mae Medr yn disgwyl i ddarparwyr eu cyflawni fel rhan o'u cyfrifoldebau rheoleiddiol. Mae'r datganiadau hyn yn aml yn adlewyrchu rhwymedigaethau neu arferion safonol yn y dyfodol.

**Bylchau Cyrhaeddiad / Dyfarnu**
Y gwahaniaethau mesuradwy mewn deilliannau academaidd rhwng grwpiau o ddysgwyr yw’r bylchau hyn, y dylanwedir arnynt yn aml gan ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol ac ystyrir eu bod yn wahaniaethol pan fyddant yn parhau y tu hwnt i'r hyn y gellir ei esbonio gan gyrhaeddiad blaenorol neu allu unigol, ac yn dynodi anghydraddoldebau posibl o fewn y system.

DRAFT

**Camau Rhesymol**
Camau y disgwylir i ddarparwr eu cymryd er mwyn lleihau niwed rheoleiddiol posibl i'r eithaf, neu i ateb gofynion cydymffurfio. Mae'r rhesymolrwydd yn cael ei farnu yn ei gyd-destun, gan adlewyrchu cymesuredd, graddfa, a'r adnoddau sydd ar gael i'r darparwr.

**Camymddwyn (fel y mae'n ymwneud â Lles Staff a Dysgwyr)**
Mae'n cyfeirio at ymddygiad gan ddysgwyr neu staff nad yw'n gysylltiedig â gweithgarwch academaidd ac sy'n torri codau ymddygiad neu bolisïau sefydliadol, neu safonau cyfreithiol. Gall gynnwys aflonyddu, trais (gan gynnwys trais rhywiol), gwahaniaethu, neu ymddygiad troseddol.

**Camymddwyn**
Mae'n cyfeirio at ymddygiad gan ddysgwyr neu staff sy'n torri codau ymddygiad neu bolisïau sefydliadol, neu safonau cyfreithiol ac mae'n cynnwys camymddwyn sy'n ymwneud â rhaglen ddysgu (e.e. llên-ladrad, twyllo). Mae dogfennau llywodraethu a pholisïau mewnol darparwyr yn nodi'r hyn sy'n cynnwys camymddwyn o fewn eu sefydliad. Mae defnydd Medr o'r term yn adlewyrchu'r cyd-destun sefydliadol hwn ac nid yw'n gorfodi diffiniad annibynnol na throsfwaol.

**Canlyniadau Mesuradwy**
Targedau penodol, seiliedig ar dystiolaeth a osodir gan ddarparwyr i ddangos cynnydd o ran hybu cyfle cyfartal ar draws mynediad, cadw, cyrhaeddiad a dilyniant.

**Casglu Data Ôl-16**
Y dull a ddefnyddir i gasglu data ar ddysgwyr, rhaglenni dysgu a gweithgareddau dysgu o ysgolion a gynhelir â chweched dosbarth yng Nghymru.

**Categori (Amgen) Addysg Uwch**
Nid oes angen i ddarparwyr yn y categori amgen fod yn elusennau. Mae eu cyrsiau hefyd yn cael eu cymeradwyo'n awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr, ond dim ond y lefel is o fenthyciadau ffioedd dysgu y gall myfyrwyr eu cael. Nid yw'r darparwyr hyn yn ddarostyngedig i derfynau ffioedd dysgu, felly gallant osod eu ffioedd eu hunain.

**Categori (Craidd) Addysg Uwch**
Rhaid i ddarparwyr yn y categori craidd fod yn elusennau. Mae eu cyrsiau'n cael eu cymeradwyo'n awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr ar gyfer darpariaeth israddedig ac ôl-raddedig, a gall myfyrwyr gael mynediad at y lefel uwch o fenthyciadau ffioedd dysgu ar gyfer darpariaeth israddedig. Mae'r darparwyr hyn hefyd yn ddarostyngedig i derfynau ffioedd dysgu ar gyfer darpariaeth israddedig a osodir gan Lywodraeth Cymru, sy'n golygu bod ffioedd ar gyfer y ddarpariaeth hon wedi'u capio.

**Cenhadaeth Ddinesig**.
Mae cenhadaeth ddinesig yn golygu camau gweithredu sy'n hybu neu'n gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu cyfrifoldebau darparwyr addysg drydyddol i gyfrannu at les y cyhoedd trwy weithio mewn partneriaeth â chymunedau a pharatoi dysgwyr i fod yn ddinasyddion gweithredol, gwybodus. Gall hyn gynnwys cynnig gwasanaethau neu gyfleusterau i'r cyhoedd, cynnal ymchwil sy'n cael effaith fawr, ennyn ymgysylltiad staff a myfyrwyr â gweithgareddau gwirfoddoli a dinesig, a sicrhau bod arferion sefydliadol yn cyd-fynd â'r

DRAFT

egwyddor datblygu cynaliadwy a'r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg
Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn nodi dull safonol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg, y bwriedir iddo fod yn berthnasol i bob cyd-destun, yn cynnwys fel arweiniad i ddatblygu rhaglenni ac asesiadau dysgu iaith. Bydd y Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg yn seiliedig ar lefelau cyffredin y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd, sef fframwaith rhyngwladol sefydledig ar gyfer asesu gallu ieithyddol.

### Cod Ymgysylltu â Dysgwyr
Fframwaith statudol a gyhoeddir gan Medr sy'n nodi disgwyliadau ar gyfer sut y dylai dysgwyr gael eu cynnwys mewn prosesau penderfynu o fewn eu darparwr. Mae cydymffurfio â'r Cod yn amod cofrestru neu gyllido.

### Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru
Y system casglu data a ddefnyddir i gasglu data gan ddarparwyr addysg bellach, prentisiaethau a dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru.

### Cofrestr Medr
Y Gofrestr a sefydlir ac a gynhelir gan Medr o dan Adran 25(1) o'r Ddeddf.

### Cofrestr Risg Lles
Dogfen a gynhelir gan ddarparwyr sy'n nodi risgiau posibl i les staff a dysgwyr ac yn amlinellu strategaethau lliniaru.

### Corff Llywodraethu (neu Gorff Cyfatebol)
Yr awdurdod penderfynu uchaf sy'n gyfrifol am lywodraethu o fewn darparwr. Mae'n gyfrifol am gyfeiriad strategol, goruchwylio a sicrhau y cydymffurfir â rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol. Rhaid i'r corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol) weithredu ar y cyd ac er budd gorau'r darparwr. Gall cyrff llywodraethu fod yn wahanol o ran ffurf ar draws y sector trydyddol, er enghraifft: ar gyfer darparwyr addysg uwch ac addysg bellach, y Bwrdd neu'r Cyngor yw hwn ac mae'n anweithredol gan fwyaf; ar gyfer darparwyr hyfforddiant nad ydynt fel arfer yn cael eu hystyried yn sefydliadau, gall y corff llywodraethu fod y personau sy'n gyfrifol am reoli'r darparwyr; ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned y corff llywodraethu, y cyngor neu gorff cyfatebol yn y corff a gyllidir ar gyfer y ddarpariaeth fydd hwn (fel arfer yr awdurdod lleol, ond gall hefyd fod yn ddarparwyr addysg bellach); ac ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir, cyngor yr awdurdod lleol fydd hwn fel arfer. Yr eithriad i hyn yw'r cod ymgysylltu â dysgwyr, lle mae'n wir mai corff llywodraethu ysgol a gynhelir yw'r corff sy'n gyfrifol am gydymffurfio. Gwiriwch gyda Medr os ydych yn ansicr ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr â chorff llywodraethu eich darparwr.

Ar gyfer awdurdodau lleol, dylid darllen hyn fel cyfeiriadau at yr awdurdod lleol yn gweithredu drwy ei gyrff llywodraethu a sicrwydd sefydledig sy'n gyfrifol am addysg ôl-16.

### Cwyn Ffurfiol
Cwyn a gyflwynir trwy sianel swyddogol, fel arfer yn ysgrifenedig, ac yr ymchwilir iddi o dan weithdrefn gwynion y sefydliad perthnasol.

DRAFT

### Cyd-greu

Arfer lle mae dysgwyr a staff yn cydweithio i ddylunio neu wella profiadau, amgylcheddau neu bolisïau dysgu. Mae cyd-greu yn hybu ymgysylltiad, parch ar y ddwy ochr, a chydgyfrifoldeb am ddysgu.

### Cydweithio

Egwyddor sy'n tanategu dull rheoleiddio Medr, sy'n cyfeirio at yr ymgysylltiad gweithredol rhwng darparwyr, dysgwyr, rhanddeiliaid a rheoleiddwyr i gyrraedd nodau cyffredin. Mae cydweithio o gymorth i ddatblygu darpariaeth gydlynol, rhannu arfer effeithiol, a chreu systemau cynhwysol, sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Mae hefyd yn cynnwys gweithio ar y cyd ar draws darparwyr i wella ansawdd, lleihau dyblygu, a gwella deilliannau dysgwyr. Mae cydweithio'n un o'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### Cyfalaf Gweithio

Cronfa arian parod wrth gefn y darparwr sydd ar gael i'w wario ar anghenion gweithredol o ddydd i ddydd yw hyn. Nid yw'n cynnwys arian sy'n gyfyngedig neu wedi'i ddynodi neu wedi'i neilltuo fel arall.

### Cyfansoddiad y Corff Llywodraethu (neu gorff cyfatebol)

Strwythur ac aelodaeth corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol) darparwr, gan gynnwys cydbwysedd sgiliau, profiad, annibyniaeth ac amrywiaeth. Ni ddylai cyfnodau aelodaeth fel arfer fod yn hwy na naw mlynedd, gydag uchafswm o ddeng mlynedd mewn achosion eithriadol.

### Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu

Cyfarwyddyd ffurfiol a gyhoeddwyd gan Medr i gorff llywodraethu (neu gorff cyfatebol) darparwr sy'n ei gwneud hi'n ofynnol iddynt gydymffurfio â therfynau ffioedd a/neu ad-dalu unrhyw ffioedd gormodol a godwyd ar ddysgwyr. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn orfodadwy ac mae'n destun adolygiad.

### Cyfarwyddyd mewn Perthynas â Methiant i Gydymffurfio

Cyfarwyddyd ffurfiol a ddyroddwyd gan Medr i gorff llywodraethu (neu gorff cyfatebol) darparwr pan fydd wedi methu, neu'n debygol o fethu, â chydymffurfio ag amod cofrestru parhaus. Gall y cyfarwyddyd bennu camau gweithredu i'w cymryd ac mae'n orfodadwy trwy waharddeb.

### Cyfle Cyfartal

Mae cyfle cyfartal yn golygu atal, dileu neu reoleiddio gwahaniaethu rhwng pobl ar sail rhyw neu statws priodasol, ar sail hil, neu ar sail anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol neu darddiad cymdeithasol, neu ar sail priodoleddau personol eraill, gan gynnwys credoau neu farn, megis credoau crefyddol neu farn wleidyddol, ond heb gynnwys iaith. Mae'r diffiniad hwn yn cyd-fynd yn agos â Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dyletswydd economaidd-gymdeithasol y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae Medr yn ymrwymedig i 'weithredu yn ysbryd' y ddyletswydd, fel y mae hyn yn ymwneud â diffyg cynrychiolaeth ddigonol mewn addysg drydyddol o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol. Gweler hefyd ymrwymiad Medr i'r Gymraeg fel y nodir o dan amod y Gymraeg.

### Cyflogadwyedd

Gweithgareddau, cymwysterau a chymorth sydd wedi'u bwriadu i helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau, y priodoleddau a'r ymddygiadau y mae eu hangen arnynt ar gyfer

DRAFT

cyflogaeth yn y dyfodol. Gellir gwreiddio sgiliau cyflogadwyedd mewn cymwysterau sy'n anelu at roi i ddysgwyr yr wybodaeth a'r priodoleddau y mae eu hangen arnynt i weithio mewn diwydiant penodol neu yrfa benodol. Gallai cymorth cyflogadwyedd hefyd gynnwys, er enghraifft, cymorth i wneud cais am swyddi neu ennill profiad gwaith, sgiliau cyfweliad, sgiliau gweithio fel rhan o dîm, a chyrsiau ysgogiadol.

### Cyfranogiad

Mae cyfranogiad yng nghyd-destun yr amod cyfle cyfartal yn cynnwys ffocws ar ehangu mynediad a mynd i'r afael â rhwystrau i ymgysylltu â dysgu, a/neu gynnal ymchwil, a brofir gan bobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol (gweler y diffiniad o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol uchod). Mae ehangu mynediad yn cynnwys ymateb i anfantais economaidd-gymdeithasol a'n hymrwymiad i weithredu yn ysbryd dyletswydd economaidd-gymdeithasol y Ddeddf Cydraddoldeb a chefnogi pobl â nodweddion gwarchodedig. Dylai ehangu mynediad at addysg drydyddol, drwyddi a'r tu hwnt iddi sicrhau bod pawb yn gallu gwireddu eu llawn botensial.

### Cyngor a Chanllawiau

Gall Medr roi cyngor a dyroddi canllawiau (boed yn gyffredinol neu'n benodol) ynghylch darparu addysg drydyddol neu unrhyw fater sy'n gysylltiedig â swyddogaethau Medr. Gall hyn fod trwy gyfathrebiadau ffurfiol neu anffurfiol a ddyroddir i ddarparwyr addysg drydyddol. Mae'r cyfathrebiadau hyn wedi'u bwriadu i gefnogi cydymffurfedd ag amodau rheoleiddio a hyrwyddo arfer da ar draws y sector.

### Cylch Oes y Dysgwr

Y camau ar daith dysgwr trwy addysg drydyddol, gan gynnwys mynediad, pontio, cadw, deilliannau, dilyniant, a chyfranogiad mewn ymchwil ac arloesi.

### Cyllid Cyfalaf a Ddarperir at Ddiben Penodol

Cyllid a ddarperir at ddiben cyflawni prosiect cyfalaf penodedig, ar wahân, y cytunwyd arno, fel y'i gwahaniaethir oddi wrth gyllid cyfalaf mwy cyffredinol y gall fod yn ofynnol ei gymhwyso i feysydd polisi penodedig.

### Cymunedau Ymarfer

Grwpiau cydweithredol o ddarparwyr neu randdeiliaid sy'n rhannu gwybodaeth, arferion a strategaethau i wella cyfle cyfartal a mynd i'r afael â heriau cyffredin.

### Cynaliadwyedd Ariannol

Gofyniad i ddarparwyr ddangos iechyd, hyfywedd a chapasiti ariannol parhaus i gyflawni rhwymedigaethau heb beryglu ansawdd addysgol (a lle bo'n berthnasol, gallu ymchwil ac arloesi) dros y tymor canolig o dair i bum mlynedd o leiaf.

### Cynhyrchu Arian Parod Gweithredol

Yr arian parod cylchol sylfaenol a gynhyrchir o weithgareddau gweithredu mewn cyfnod yr adroddir arno neu flwyddyn yr adroddir arni. Bydd hyn yn cael ei fynegi fel enillion cyn llog, trethiant, dibrisiant ac amorteiddiad ('EBITDA') wedi'u haddasu, lle mae 'wedi'u haddasu' yn cyfeirio at ddileu eitemau anghylchol fel grantiau cyfalaf, costau ailstrwythuro, addasiadau nad ydynt yn arian parod a thriniaethau cyfrifyddu eraill ac eithrio croniadau nad ydynt yn cyfateb i arian parod. Er mwyn lleihau'r baich, bydd Medr ond yn addasu ar gyfer eitemau sydd eisoes wedi'u datgelu ar wahân ar ffurflenni cyllid eraill.

### Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg Drydyddol
Cynllun Medr (sydd wrthi'n cael ei ddatblygu) i gynyddu a gwella addysg ac asesu cyfrwng Cymraeg ar draws y sector trydyddol yng Nghymru, dan arweiniad Medr mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid.

### Cynllun Cydraddoldeb Strategol
Cynllun sy'n ofynnol gan y darparwyr addysg hynny yng Nghymru sydd wedi'u rhestru yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ddogfen sy'n nodi'r camau y mae'r darparwr yn eu cymryd i gyflawni ei ddyletswyddau penodol gan gynnwys gosod amcanion cydraddoldeb, (gweler canllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol am ragor o wybodaeth).

### Cynllun Diogelu Dysgwyr
Dogfen ffurfiol, y gofynnwyd amdani gan Medr, sy'n amlinellu sut y bydd darparwr yn cefnogi dysgwyr os bydd tarfu sylweddol ar eu hastudiaethau, gan gynnwys cau darparwr neu gampws, neu ddirwyn cwrs i ben, neu amgylchiadau eraill a allai effeithio'n negyddol ar ddysgwyr. Dylai hefyd nodi sut y bydd dysgwyr yn cael eu cefnogi os ydynt yn dymuno trosglwyddo i gwrs addysg drydyddol newydd am unrhyw reswm.

### Cynllun Gweithredu
Ymateb ysgrifenedig strwythuredig y mae Medr wedi gofyn amdano gan ddarparwr i fynd i'r afael â meysydd a adnabuwyd fel rhai sy'n achosi pryder. Mae cynlluniau gweithredu fel arfer yn cynnwys amcanion, llinellau amser, a threfniadau goruchwylio penodol, a gallant gael eu monitro gan Medr neu ei asiantau. Gall methu â chyflawni cynllun gweithredu y cytunwyd arno arwain at gamau rheoleiddio pellach.

### Cynllun Lles
Cynllun blynyddol a gyflwynir gan ddarparwyr i Medr sy'n amlinellu blaenoriaethau a chamau gweithredu i gefnogi a hybu lles staff a dysgwyr, gan gynnwys mentrau iechyd meddwl a diogelwch.

### Cynnig Cymraeg
Cynllun a gydlynir gan Gomisiynydd y Gymraeg i helpu sefydliadau i wella eu gwasanaethau Cymraeg a hybu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith defnyddwyr gwasanaethau.

### Darpariaeth Addysg Uwch (AU)
Rhaglenni astudio fel arfer ar Lefel 4 neu uwch, sy'n arwain at gymwysterau fel tystysgrifau, diplomâu, graddau sylfaen, graddau baglor, a dyfarniadau ôl-raddedig. Gall darpariaeth gael ei chyflwyno'n uniongyrchol gan ddarparwr cofrestredig neu drwy drefniadau breiniol neu is-gontractio.

### Darpariaeth cyfrwng Cymraeg
Addysg neu hyfforddiant a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, gan gynnwys addysgu, asesu a chymorth i ddysgwyr.

### Darparwr
Sefydliad sy'n darparu hyfforddiant neu addysg drydyddol.

DRAFT

### Datblygu Cydweithredol
Y broses o ddylunio amodau a chanllawiau rheoleiddiol mewn partneriaeth â rhanddeiliaid fel dysgwyr, darparwyr, cyrff y sector a phartïon eraill i sicrhau perthnasedd a thegwch.

### Datganiad o Ymarfer a Argymhellir ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch (‘SORP' AB ac AU’)
Mae Datganiadau o Ymarfer a Argymhellir (SORPs) yn darparu fframwaith, sy'n ategu’r Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU, gan roi arweiniad penodol i ddiwydiannau neu sectorau arbenigol ar baratoi eu datganiadau ariannol. Mae SORPs yn orfodol ar gyfer endidau o fewn eu cwmpas. Mae'r SORP Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn cyfuno'r gofynion ar gyfer darparwyr addysg bellach ac addysg uwch yn y DU.

### Deialog Adfyfyriol
Ymgysylltu nad yw'n gyfarwyddol, a gyflawnir trwy sgyrsiau sy’n sensitif i’r cyd-destun sy'n galluogi darparwyr i fyfyrio ynghylch eu perfformiad eu hunain, codi materion sy'n dod i'r amlwg, ac ymgysylltu â Medr ar heriau cyffredin o fewn y system.

### Digwyddiad Difrifol
Math o ddigwyddiad y mae'n rhaid adrodd amdano wrth Medr o fewn pum niwrnod gwaith. Mae'n cynnwys methiannau neu risgiau sylweddol a allai effeithio ar gydymffurfio, diogelu dysgwyr, neu hyder y cyhoedd. Rhaid i ddarparwyr gyflwyno gwybodaeth fanwl ac adroddiadau dilynol yn ôl yr angen.

### Digwyddiad Hysbysadwy
Math o ddigwyddiad y mae'n ofynnol i ddarparwyr adrodd amdano wrth Medr yn fisol. Efallai na fydd y digwyddiadau hyn yn gritigol ar unwaith ond maent yn berthnasol i gydymffurfedd parhaus ac asesu risg. Darparwyr sy’n gyfrifol am benderfynu a datgelu digwyddiadau o'r fath mewn modd amserol.

### Digwyddiadau y Mae’n Rhaid eu Hadrodd
Digwyddiadau y mae'n rhaid i ddarparwyr eu datgelu wrth Medr, gan gynnwys digwyddiadau difrifol a digwyddiadau hysbysadwy, a allai effeithio ar gydymffurfedd ag amodau cofrestru neu gyllido. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau fel problemau ariannol mawr, achosion cyfreithiol, methiannau mewn arweinyddiaeth neu lywodraethu, neu dorri rhwymedigaethau statudol. Rhaid i ddarparwyr adrodd am ddigwyddiadau difrifol o fewn pum niwrnod gwaith a digwyddiadau hysbysadwy bob mis, gan sicrhau tryloywder a galluogi ymateb rheoleiddiol amserol. Mae'r broses Digwyddiadau y Mae’n Rhaid eu Hadrodd yn rhan greiddiol o'n model. Mae'n galluogi ymateb cynnar, cymesur i faterion sy'n dod i'r amlwg ac yn cefnogi diwylliant o ymddiriedaeth, bod yn agored ac atebolrwydd. Darperir manylion atodol i helpu darparwyr i benderfynu pryd y mae’n ofynnol adrodd.

### Diogelu
Mesurau y mae darparwr yn eu cymryd i amddiffyn dysgwyr a staff rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso, eu hecsbloetio neu rhag niwed, gan gynnwys hyfforddiant, polisïau a gweithdrefnau adrodd.

### Diogelwch
Yng nghyd-destun lles staff a dysgwyr mae diogelwch yn golygu rhyddid rhag niwed, gan

DRAFT

gynnwys aflonyddu, camymddwyn, trais (gan gynnwys trais rhywiol), a throseddau casineb.

### Diwylliant

Y gwerthoedd, ymddygiadau a normau cyffredin sy'n siapio sut y mae darparwr yn gweithredu. Rhaid i ddarparwyr asesu a monitro eu diwylliant sefydliadol, adnabod bylchau rhwng y diwylliant gwirioneddol a'r diwylliant a ddymunir, a gweithredu i sicrhau bod y diwylliant yn cyd-fynd â'r nodau a gwerthoedd strategol.

### Dogfennau Llywodraethu

Y dogfennau cyfreithiol sy'n amlinellu'r diben, y rheolau a'r gweithdrefnau ar gyfer sut y mae darparwr yn cael ei redeg.

### Dull Darparwr Cyfan

Strategaeth lle mae pob rhan o ddarparwr, ei drefniadau llywodraethu, arweinwyr, staff a gwasanaethau, yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni deilliannau da i ddysgwyr a staff, gan wreiddio polisïau a gweithdrefnau perthnasol ar draws pob agwedd ar weithgareddau'r darparwr.

### Dylai Darparwyr

Lle mae Medr yn defnyddio'r term 'dylai', mae'n cyfeirio at gamau gweithredu neu arferion a anogir yn gryf ond nad ydynt yn ofynnol yn gyfreithiol yn yr amodau cofrestru neu gyllido; fodd bynnag, byddai Medr yn disgwyl i gyrff llywodraethu (neu gyrff cyfatebol) ystyried canllawiau o'r fath. Bydd Medr yn ystyried i ba raddau y mae darparwr wedi rhoi sylw dyledus i ddarpariaethau 'dylai' wrth asesu risg y darparwr.

### Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Dyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ddileu gwahaniaethu, hybu cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau.

### Dyletswydd Prevent

Dyletswydd statudol a osodir ar awdurdodau penodedig, megis prifysgolion, colegau ac ysgolion, o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau hynny roi sylw dyledus i'r angen i atal unigolion rhag cael eu denu i derfysgaeth. Gallai hyn gynnwys sicrhau bod polisïau, asesiadau risg, hyfforddiant staff, trefniadau lles a diogelu, a gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer rheoli siaradwyr allanol a digwyddiadau. Mae Medr yn ystyried cydymffurfedd â dyletswydd Prevent wrth asesu amodau perthnasol cofrestru neu gyllido.

### Dysgu Gydol Oes

Term eang y derbynnir yn gyffredinol i gynnwys dysgu i oedolion a ddarperir ar sail ran-amser neu hyblyg ar unrhyw lefel, ac sydd wedi'i fwriadu i helpu pobl i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau trwy gydol eu hoes. Mae'n aml yn cynnwys dysgu rhan-amser i oedolion (a allai fod mewn cyflogaeth eisoes), a dysgu oedolion yn y gymuned.

### Dysgwr

Y term cyfunol a ddefnyddir ar gyfer unigolion sy'n dysgu yn y sector addysg drydyddol mewn ystod eang o leoliadau gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, gweithleoedd a chymunedau. O fewn gwahanol rannau o'r sector addysg drydyddol defnyddir termau mwy penodol yn aml, megis 'myfyriwr', 'disgybl', 'ymchwilydd doethur' neu 'brentis'.

### EBITDA wedi'i addasu

Mae enillion cyn llog, trethiant, dibrisiant ac amorteiddiad addasedig yn mireinio'r cyfrifiad EBITDA safonol trwy eithrio eitemau anarferol, perchnogol neu anghylchol i ddarparu darlun cliriach o broffidioldeb gweithredol. Mae'r addasiadau fel arfer yn cynnwys dileu treuliau untro, eitemau eithriadol ac eitemau nad ydynt yn arian parod. Mae hwn yn ddangosydd ariannol sy'n ceisio gweithredu fel dirprwy ar gyfer yr arian parod gweithredol sylfaenol a gynhyrchwyd gan y darparwr ar gyfer y flwyddyn ar sail croniadau.

### Elusen Esempt

Sefydliad a sefydlwyd at ddibenion elusennol nad yw'n ofynnol iddo gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau, ond a reoleiddir yn hytrach gan Brif Reoleiddiwr. Rhaid i elusennau esempt barhau i gydymffurfio â'r rheolau cyfreithiol arferol sy'n berthnasol i elusennau, gan gynnwys y Deddfau Elusennau.

### Estyn[1]

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, y corff sydd â chyfrifoldeb statudol am gynnal arolygiadau, ac adolygiadau datblygiadol (e.e. thematig a daearyddol) o ansawdd a safonau mewn mathau penodedig o ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn hefyd yn rhoi cyngor ac arweiniad i Medr a Llywodraeth Cymru ar safonau ac ansawdd addysg a hyfforddiant (Adrannau 57-68 o **Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022** (y Ddeddf)).

### Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg

Fframwaith cenedlaethol i'w baratoi gan Weinidogion Cymru o dan Adran 24 o Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, a fydd yn nodi disgwyliadau ar gyfer addysg Gymraeg ac ar gyfer dysgu Cymraeg, gan gynnwys mewn addysg drydyddol.

### Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW)

Meta-fframwaith cynhwysol yw hwn sydd wedi'i fwriadu i ddarparu mwy o eglurder ynghylch y system cymwysterau a chredydau yng Nghymru. Mae'n cynnwys tri chonglfaen dysgu, addysg uwch, cymwysterau rheoleiddiedig sy'n cynnwys cymwysterau galwedigaethol a chyffredinol, a dysgu gydol oes.

### Ffurflen Sicrwydd Flynyddol

Hunan-ddatganiad strwythuredig blynyddol a gyflwynir gan bob darparwr ac a gymeradwyir yn ffurfiol gan ei swyddog atebol a'i gorff llywodraethu (neu gorff cyfatebol). Mae'n galluogi darparwyr i gadarnhau eu bod wedi cymryd camau priodol ac wedi cael digon o sicrwydd i sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â'r amodau cofrestru neu gyllid, ac i ddarparu unrhyw ddiweddariadau ar newidiadau, heriau neu risgiau perthnasol.

### Gall Darparwyr

Yn dangos bod gan y darparwr yr opsiwn i gymryd y cam a ddisgrifir. Nid yw'n creu gofyniad, disgwyliad, na rhwymedigaeth awgrymedig. Nid yw dewis peidio â chymryd y cam yn esgor ar ganlyniad rheoleiddiol.

[1] Wedi'i gynnwys gan bod gan Estyn rôl statudol i asesu ansawdd addysg drydyddol

DRAFT

**Gofyniad**
Rhwymedigaeth benodol y mae'n rhaid i ddarparwr ei chyflawni er mwyn cydymffurfio ag amod rheoleiddiol. Gall gofynion ymwneud â chynaliadwyedd ariannol, llywodraethu, diogelu dysgwyr, neu feysydd eraill o ran perfformiad. Maent yn cael eu hasesu trwy fonitro a gallant gael eu hategu gan ganllawiau neu ddisgwyliadau ychwanegol a gyhoeddir gan Medr.

**Gofynion Amodau**
Y disgwyliadau a'r rhwymedigaethau penodol y mae'n rhaid i ddarparwyr eu bodloni i gydymffurfio ag amod rheoleiddio.

**Goruchwyliaeth Briodol**
Cyfrifoldeb darparwr i gynnal trefniadau llywodraethu a monitro effeithiol mewn perthynas â'i weithrediadau ei hun a gweithrediadau partneriaid darparu, gan gynnwys sut y mae'n cyflawni ei ddyletswyddau rheoleiddiol a statudol. Mae hyn yn cynnwys strwythurau atebolrwydd eglur, prosesau rheoli risg ac ymgysylltu ar lefel uwch.

**Grwpiau sydd Heb Gynrychiolaeth Ddigonol (Diffiniad Cyfreithiol)**
Grwpiau a adnabuwyd mewn deddfwriaeth neu ganllawiau fel rhai sydd â chyfraddau cyfranogiad, llwyddiant neu ddilyniant is mewn addysg drydyddol oherwydd ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol.

**Gweithdrefn Gwynion**
Proses ffurfiol a sefydlwyd gan ddarparwr i ymchwilio i gwynion a wnaed gan ddysgwyr neu gyn-ddysgwyr am weithredoedd neu anweithredoedd gan y darparwr.

**Gweithgareddau Ymgysylltu**
Mae gweithgareddau ymgysylltu Medr ar lefel y sector ac ar lefel darparwyr yn ffynhonnell gwybodaeth fonitro. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd, deialogau strategol, ymatebion ymgynghori, ac adborth anffurfiol. Mae'r sgyrsiau hyn yn helpu i ddwyn materion i'r wyneb, egluro bwriad, ac ategu ein dealltwriaeth o gyd-destun darparwyr.

**Gweithgarwch Dysgu**
Cyrsiau neu gymwysterau unigol a wneir gan ddysgwr.

**Gweithrediadau'r Corff Llywodraethu (neu Gorff Cyfatebol)**
Y prosesau a'r adnoddau sy'n ategu gweithrediad effeithiol y corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol), gan gynnwys mynediad at gyngor annibynnol, cymorth cyllidebol, a phrosesau penderfynu tryloyw.

**Gwella**
Camau bwriadol a gymerir gan ddarparwyr i wella ansawdd cyfleoedd dysgu. Mae gwella yn mynd y tu hwnt i gyrraedd safonau sylfaenol ac yn canolbwyntio ar arloesi, rhagoriaeth, a phrofiad dysgwyr.

**Gwella'n Barhaus**
Y broses barhaus lle mae darparwyr yn defnyddio hunanwerthuso, data, dadansoddi a gwybodaeth i ymegnïo i gael rhagoriaeth barhaus. Mae'n ailadroddus, a gall gynnwys mynd i'r afael â diffygion a gwneud newidiadau fesul tipyn i ddeilliannau dysgwyr dros

DRAFT

amser. Mae darparwyr addysg uwch fel arfer yn cyfeirio at y gweithgarwch hwn fel gwella.

### Gwiriadau Addasrwydd
Gwiriadau cyn cyflogi neu barhaus sy'n asesu priodoldeb staff ac unigolion sy'n rhyngweithio â dysgwyr, sy'n aml yn cynnwys cliriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), cymwysterau, geirdaon, a hawl i weithio yn y DU.

### Gwrthdaro Buddiannau
Sefyllfaoedd lle gallai buddiannau personol, ariannol neu eraill beryglu neu ymddangos fel pe baent yn peryglu didueddrwydd unigolion sy'n ymwneud â llywodraethu neu reoli. Rhaid i ddarparwyr gadw cofrestr gyhoeddus o wrthdaro o'r fath a'i monitro'n rheolaidd.

### Hunanadrodd
Proses strwythuredig lle gall darparwyr hysbysu Medr am ddigwyddiadau difrifol neu risgiau perthnasol, gan alluogi ymyrraeth amserol a'i gwneud yn bosibl datrys problemau ar y cyd. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr fabwysiadu diwylliant cyffredinol o fod yn agored a rhybuddio Medr os ydynt yn dod yn ymwybodol o risgiau neu heriau i gydymffurfio sy'n dod i'r amlwg. Mae hyn yn cynnwys materion nad ydynt eto'n cyrraedd y trothwy ar gyfer adrodd yn ffurfiol o bosibl ond a allai fod â goblygiadau ar gyfer dysgwyr neu hyder rheoleiddiol. Mae hunanadrodd cynnar a rhagweithiol yn helpu i sicrhau ymateb cymesur, yn osgoi uwchgyfeirio, ac yn cael ei drin fel arwydd o lywodraethu da.

### Hunanreoleiddio
Disgwyliad bod darparwyr yn perchnogi eu cyfrifoldebau cydymffurfio a gwella. Mae hunanreoleiddio'n cynnwys rheoli risg yn rhagweithiol, atebolrwydd mewnol, ac ymrwymiad i dryloywder, gan gynnwys hunanadrodd am faterion. Mae'n elfen allweddol o athroniaeth reoleiddio Medr, gan gefnogi sector addysg drydyddol aeddfed ac ymatebol.

### Hunanwerthuso
Proses fyfyriol, lle mae darparwyr yn gwerthuso eu perfformiad eu hunain, i adnabod eu cryfderau a'u meysydd i'w gwella, a sut maent yn blaenoriaethu'r meysydd hynny i'w gwella. Mae hyn yn goleuo prosesau'r darparwr ei hun ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella. Gall Medr dynnu ar brosesau hunanwerthuso presennol a gynhelir gan ddarparwyr, neu ofyn i'r darparwr hunanwerthuso mewn perthynas â'n hamodau ni.

### Hyfywedd Ariannol
Gallu darparwr i barhau i fod yn ariannol hyfyw yn y tymor byr o un i ddwy flynedd, heb unrhyw reswm i dybio bod y darparwr yn wynebu risg sylweddol o ansolfedd o fewn y cyfnod hwn.

### Hygyrchedd
I ba raddau y gall amgylcheddau dysgu, gwasanaethau, gwybodaeth a mannau ffisegol gael eu defnyddio gan bob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag anableddau neu anghenion ychwanegol. Mae hygyrchedd yn cynnwys dimensiynau digidol, ieithyddol, ffisegol a gwybyddol.

### Hysbysiad o Rybudd
Hysbysiad ffurfiol a ddyroddir gan Medr i gorff llywodraethu darparwr (neu gorff cyfatebol) cyn cymryd camau rheoleiddio penodol, megis dyroddi cyfarwyddyd neu osod amod

DRAFT

parhaus penodol. Mae'r hysbysiad yn amlinellu'r camau gweithredu arfaethedig, y rhesymau drostynt, ac yn rhoi cyfle i'r darparwr wneud sylwadau o fewn ffrâm amser benodol.

### Iechyd Meddwl

Cyflwr o lesiant meddyliol sy'n galluogi pobl i ymdopi â straen bywyd, gwireddu eu galluoedd, dysgu'n dda a gweithio'n dda, a chyfrannu i'w cymuned. Mae'n elfen annatod o iechyd a llesiant sy'n tanategu ein galluoedd unigol a chyfunol i wneud penderfyniadau, meithrin perthnasoedd a siapio'r byd yr ydym yn byw ynddo. Mae iechyd meddwl yn hawl ddynol sylfaenol, ac mae'n hanfodol i ddatblygiad personol, cymunedol ac economaidd-gymdeithasol. Gall pobl ag iechyd meddwl gwael fod â chyflwr iechyd meddwl ond nid yw hyn yn wir bob amser neu o reidrwydd.

### Llais y Dysgwr

Barn, anghenion ac adborth dysgwyr, a gesglir ac a ddefnyddir i siapio polisi, addysgu, gwasanaethau cymorth a chynllunio strategol.

### Lles

Mae lles dysgwyr a staff yn cynnwys llesiant a diogelwch. Mae 'llesiant' yn golygu llesiant emosiynol ac iechyd meddwl ac mae 'Diogelwch' yn golygu rhyddid rhag niwed gan gynnwys aflonyddu, camymddwyn, trais (gan gynnwys trais rhywiol) a throseddau casineb. Mae Medr yn dehongli ‘lles’ yn unol â’r memorandwm esboniadol ar gyfer y Ddeddf.  Fe’i esbonnir yn fframwaith rheoleiddio Medr.

### Llesiant Emosiynol

Ystyr llesiant emosiynol mewn addysg drydyddol yw gallu unigolion i reoli eu hemosiynau, ymdopi â phwysau addysgol a chymdeithasol, meithrin perthnasoedd cadarnhaol, a chynnal ymdeimlad o bwrpas a pherthyn. Mae'n cwmpasu gwydnwch unigol a'r systemau cymorth gan ddarparwyr sy'n hybu iechyd meddwl a chydbwysedd emosiynol.

### Llywodraethu a Rheoli

Effeithiolrwydd goruchwyliaeth darparwr ar systemau, arweinyddiaeth, strwythurau penderfynu, a rheolaethau mewnol—gan gynnwys risg, archwilio, a llywodraethu strategol.

### Llywodraethu Da

Yr egwyddorion a'r arferion sy'n sicrhau bod darparwr yn cael ei arwain, ei reoli a'i ddwyn yn atebol mewn modd effeithiol. Mae hyn yn cynnwys tryloywder, uniondeb, ymlynu wrth Egwyddorion Llywodraethu Da Nolan, a chyd-fynd â  chod llywodraethu cydnabyddedig a phriodol.

### Mapio Sicrwydd

Mecanwaith ar gyfer mynegi, adnabod a chysylltu'r sicrwydd y mae darparwr yn ei gael o wahanol ffynonellau ar draws pob llinell amddiffyn i'r risgiau sy'n bygwth y gallu i gyrraedd nodau a chyflawni cenhadaeth ac amcanion strategol y darparwr yw map sicrwydd.

### Mecanweithiau ar gyfer Ymgysylltu

Y ffyrdd strwythuredig ac ystyrlon y mae darparwr yn cynnwys dysgwyr a staff wrth lunio darpariaeth, gwasanaethau, neu strategaeth sefydliadol.

DRAFT

## Monitro
Y broses barhaus lle mae Medr yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth i asesu a yw darparwyr yn bodloni eu hamodau cofrestru neu gyllido. Mae monitro'n seiliedig ar risg ac yn gymesur, a gall gynnwys data a ffurflenni eraill a gyflwynir yn uniongyrchol i Medr neu a gyrchir gan Medr trwy bartïon eraill, ymgysylltu ag arweinwyr darparwyr, a mathau eraill o dystiolaeth. Mae'n ategu cydymffurfedd a gwella'n barhaus ar draws y sector addysg drydyddol.

## Monitro Cwynion a Phryderon Rheoleiddiol
Rydym yn adolygu materion systemig neu thematig sy'n codi o gwynion gan ddysgwyr neu bryderon rheoleiddiol a gohebiaeth yn rheolaidd wrth asesu risg a monitro cydymffurfedd darparwr. Byddwn ond yn ystyried gwybodaeth am gwynion pan fo'n berthnasol i'n dyletswyddau rheoleiddio statudol, er enghraifft, lle gall tueddiadau neu ganlyniadau cwynion ddynodi risgiau systemig neu achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio â'r amodau cofrestru neu gyllido.

Nid yw Medr yn ymchwilio i rinweddau cwynion unigol gan ddysgwyr, nac yn penderfynu arnynt nac yn rhoi sylwadau arnynt. Pan anfonir cwynion gan ddysgwyr yn uniongyrchol at Medr, bydd yr achwynydd fel arfer yn cael ei gyfeirio at y darparwr cymwys er mwyn iddo ymdrin â'r mater o dan ei weithdrefnau ei hun. Mae gan Medr rôl wrth sicrhau bod gan bob darparwr cofrestredig a gyllidir weithdrefnau cyhoeddedig ar waith er mwyn ymchwilio i gwynion gan ddysgwyr a chyn-ddysgwyr. Gallwn hefyd ystyried pryderon a godir yn uniongyrchol gyda Medr ynghylch cydymffurfedd â'r amodau cofrestru neu gyllido, y Cod Rheoli Ariannol (hyd nes y caiff ei ddisodli), neu, yn achos sefydliadau addysg uwch cofrestredig, dyletswydd Prevent.

## Monitro Cychwynnol
Y broses a gynhelir gan Medr yn ystod cofrestriad darparwr i asesu ei gydymffurfedd. Mae monitro cychwynnol yn darparu gwybodaeth sy'n sail i gymhwyso amodau parhaus ac yn penderfynu cymesuredd monitro yn y dyfodol.

## Monitro Data
Data a gyhoeddwyd neu a gyflwynwyd i Medr a ddefnyddir i fonitro dangosyddion allweddol sy'n berthnasol i'n hamodau rheoleiddio — megis cyfranogiad, parhad, deilliannau, neu dueddiadau ariannol. Nid yw data byth yn cael ei ystyried ar ei ben ei hun ac mae'n cael ei ddehongli o fewn ei gyd-destun. Lle mae data'n awgrymu risg neu danberfformiad posibl, efallai y byddwn yn ceisio gwybodaeth ychwanegol neu'n ei ddefnyddio i flaenoriaethu ymgysylltu pellach.

## Monitro Gwybodaeth sydd ar gael yn Gyhoeddus
Gall Medr fonitro gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus, er enghraifft gwybodaeth gyhoeddedig ar wefannau darparwyr, gan gynnwys eglurder, cywirdeb a hygyrchedd gwybodaeth a gyflwynir i ddysgwyr presennol a darpar ddysgwyr. Mae hyn yn helpu i sicrhau y cydymffurfir ag amodau sy'n gysylltiedig â thryloywder, diogelu defnyddwyr, a thriniaeth deg i ddysgwyr. Efallai y byddwn yn gofyn am newidiadau lle mae'r wybodaeth ofynnol ar goll neu'n aneglur, neu lle gall cynnwys awgrymu achosion posibl o dorri amodau cofrestru.

## Monitro Manylach
Ymyrraeth amhenodedig a ddefnyddir gan Medr pan fydd pryderon yn codi ynghylch

DRAFT

cydymffurfedd neu berfformiad darparwr. Gall gynnwys adroddiadau mwy mynych, cyflwyno gwybodaeth ychwanegol, neu fwy o ymgysylltu ag uwch arweinwyr. Mae monitro manylach wedi'i fwriadu i roi cymorth i ddatrys materion yn gynnar a gall ragflaenu (neu gyfyngu'r tebygolrwydd o) ymyrraeth ffurfiol bellach.

**Mwy o Ymgysylltu**
Ymgysylltu mwy mynych nag arfer ag arweinwyr darparwr fel math o fonitro manylach (gweler Monitro Manylach). Mae hyn yn debygol o godi o bryderon ynghylch diffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio posibl ag amodau cyllido neu gofrestru, a gallai arwain at ymyriadau rheoleiddiol fel y nodir yn y Datganiad Ymyrryd.

**Nodweddion Gwarchodedig**
Nodweddion gwarchodedig, fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.

**Parodrwydd i Dderbyn Risg**
Natur a maint y risg y mae darparwr yn agored iddi ac yn barod i'w hysgwyddo wrth fynd ar drywydd ei amcanion hirdymor.

**Partneriaeth Gymdeithasol**
Cydweithio rhwng cyflogwyr ac undebau llafur. Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn gosod dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodol i gynnwys undebau llafur cydnabyddedig wrth osod eu hamcanion llesiant, ac wrth wneud penderfyniadau ynghylch sut i gyflawni'r amcanion hynny. Mae Medr yn un o'r cyrff cyhoeddus sy'n gorfod cyflawni'r ddyletswydd hon, ac mae dyletswydd statudol arno hefyd i hybu cydweithio rhwng darparwyr addysg drydyddol ac undebau llafur.

**Profiad Cydradd**
Y disgwyliad bod dysgwyr sy'n astudio trwy drefniadau dilysu'n cael cymorth dysgu a bugeiliol, adnoddau a chyfleoedd sy'n cyfateb i'r rhai a ddarperir yn uniongyrchol gan y darparwr dyfarnu.

**Proffil Risg**
Proffil mewnol Medr o risg darparwr unigol yn seiliedig ar farn Medr ynglŷn â risg.

**Pwerau Ymyrryd**
Y mecanweithiau statudol ac anstatudol sydd ar gael i Medr fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio neu risg mewn darparwyr rheoleiddiedig. Mae'r rhain yn cynnwys pwerau penodedig o dan y Ddeddf a chamau gweithredu amhenodedig eraill fel monitro manylach, cynlluniau gweithredu, neu ysgogwyr cyllid.

**Pwyllgor Ansawdd**
Pwyllgor statudol Medr, sy'n cynghori Medr ar ansawdd yr holl addysg drydyddol y mae'n ei chyllido neu'n ei sicrhau fel arall.

**Pwyllgor Archwilio**
Pwyllgor gan gorff llywodraethu darparwr sy'n gyfrifol am fonitro rheolaethau mewnol, gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol a chydymffurfedd â rheoliadau. Mewn rhai darparwyr, gall y Pwyllgor Archwilio oruchwylio trefniadau adrodd ariannol a rheoli risg hefyd.

### Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) Medr yn cefnogi Bwrdd a Swyddog Cyfrifyddu (Prif Weithredwr) Medr trwy adolygu natur gynhwysfawr a dibynadwyedd sicrwydd ynghylch trefniadau llywodraethu a rheoli risg Medr, yr amgylchedd rheoli, ac uniondeb datganiadau ariannol a Chyfrifon Blynyddol Medr. Mae ARAC hefyd yn goruchwylio gwaith sicrwydd darparwyr allanol Medr.

### Pwyllgorau'r Corff Llywodraethu (neu Gorff Cyfatebol)
Is-grwpiau a sefydlwyd gan gorff llywodraethu (neu gorff cyfatebol) darparwr i oruchwylio meysydd penodol fel archwilio, cyllid, risg, cydnabyddiaeth ariannol a llywodraethu. Mae'r pwyllgorau hyn yn cynorthwyo'r corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol) i gyflawni ei gyfrifoldebau a rhaid iddynt weithredu'n dryloyw ac yn unol ag arferion da.

### Risg Ariannol
Y potensial ar gyfer ansefydlogrwydd neu gamreoli yng ngweithrediadau ariannol darparwr a allai fygwth cydymffurfedd, deilliannau dysgwyr, neu gynaliadwyedd sefydliadol.

### Rhaglen Ddysgu (Rhaglen)
Set o weithgareddau dysgu (cymwysterau) gyda diben a deilliant diffiniedig.

### Rhaglenni Prentisiaethau
Prentisiaeth yw swydd â thâl gyda hyfforddiant. Mae prentisiaid yn ennill profiad, yn dysgu sgiliau newydd ac yn ennill cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol wrth ennill cyflog. Cwblheir hyn trwy fframwaith prentisiaethau, sy'n nodi'r rhaglen ddysgu a chymwysterau o lefel 2 hyd at lefel gradd.

### Rhaid i Ddarparwyr
Lle mae Medr yn defnyddio'r term 'rhaid', mae'n golygu ei fod yn ofyniad cyfreithiol penodol neu'n ofyniad rheoleiddiol. Rhaid i ddarparwyr gydymffurfio â'r gofynion hyn.

### Rheolaeth Fewnol
Camau gweithredu, systemau a phrosesau a ddefnyddir gan ddarparwyr i reoli risg yn unol â'u parodrwydd i dderbyn risg a chynyddu'r tebygolrwydd y bydd eu strategaeth, eu nodau a'u hamcanion yn cael eu cyflawni.

### Rheoleiddio Seiliedig ar Risg
Egwyddor sy'n tanategu dull rheoleiddio Medr, lle bydd gweithgarwch monitro'n cyd-fynd â'r parodrwydd i dderbyn risg sy'n gysylltiedig â phob amod a natur pob darparwr. Mae meddwl am risg o'r ddau safbwynt hyn yn darparu ar gyfer cymesuredd a hyblygrwydd, gan osgoi baich diangen a sicrhau goruchwyliaeth effeithiol. Bydd dwyster a natur yr oruchwyliaeth yn gymesur â lefel y risg i ddysgwr, pwrs y wlad neu enw da addysg drydyddol yng Nghymru.

### Rheoli Ariannol
Y systemau, y prosesau, a'r trefniadau goruchwylio sy'n sicrhau bod materion ariannol darparwr yn cael eu cynnal yn gynaliadwy, yn dryloyw, ac yn unol ag amcanion strategol. Mae hyn yn cynnwys cyllidebu, llunio rhagolygon, rheolaethau mewnol, monitro cyfamodau, a chydymffurfio â gofynion cyllid cyhoeddus. Mae rheoli ariannol yn ymestyn

DRAFT

i bob endid o fewn strwythur grŵp darparwr ac mae'n elfen allweddol o'r amod Llywodraethu a Rheoli.

### Rheoli Ystadau
Goruchwyliaeth strategol a gweithredol o ystâd ffisegol darparwr, gan gynnwys adeiladau a thir.

### Safonau Trothwy
Lleiafswm y disgwyliadau o ran perfformiad. Bydd Medr yn ymgynghori ar unrhyw safonau trothwy ar gyfer deilliannau dysgwyr y mae'n dymuno eu mabwysiadu. Bydd unrhyw ymgynghoriad o'r fath yn nodi trothwyon rhifiadol isaf i'n goleuo wrth ffurfio barn ynglŷn â'r cwestiwn a yw darparwyr yn cyflawni deilliannau da i ddysgwyr. Efallai y bydd angen i'r trothwyon amrywio ar draws gwahanol rannau o'r sector, a chymwysterau gwahanol i gydnabod amrywiaeth y ddarpariaeth. Gall materion cyd-destunol olygu bod darparwr sydd â pherfformiad is na throthwy o'r fath yn cyflawni deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr. Felly bydd perfformiad yn erbyn safonau trothwy'n goleuo rhan o ystyriaeth ehangach i'r cwestiwn a yw anghenion rhesymol dysgwyr yn cael eu diwallu.

### Safonau'r Gymraeg
Gofynion statudol a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg y mae'n rhaid i awdurdodau lleol, prifysgolion a cholegau gydymffurfio â hwy i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

### Sail Gyfreithiol
Y sylfaen statudol ar gyfer amod neu ofyniad rheoleiddiol, sy'n cyfeirio fel arfer at adrannau penodol o'r Ddeddf. Mae'r sail gyfreithiol yn darparu'r awdurdod y mae Medr yn gosod amodau cofrestru neu gyllid oddi tano ac yn sicrhau bod camau rheoleiddio wedi'u gwreiddio mewn ddeddfwriaeth.

### Sector Addysg Drydyddol
Y term cyfunol ar gyfer darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru, gan gynnwys chweched dosbarth, dysgu oedolion, dysgu seiliedig ar waith, addysg bellach, ac addysg uwch.

### Sicrwydd Annibynnol
Sicrwydd trydydd parti a gafwyd gan ddarparwyr, megis cyrff rheoleiddio eraill, archwiliadau mewnol, gwerthusiadau allanol, neu adolygiadau arbenigol. Gall y rhain ategu hunanwerthusiad darparwr o gydymffurfedd a gallant gyfrannu at ein dealltwriaeth o sut y mae risgiau'n cael eu hadnabod a'u rheoli'n fewnol. Lle y bo'n berthnasol, efallai y byddwn yn gofyn i ddarparwyr rannu canfyddiadau neu gamau gweithredu allweddol sy'n deillio o adolygiadau o'r fath ac unrhyw gynlluniau gweithredu cysylltiedig.

### Statws Elusennol
Dynodiad cyfreithiol darparwr fel elusen, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo weithredu er budd y cyhoedd a chydymffurfio â chyfraith elusennau. Rhaid i ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru yn y categori Craidd Addysg Uwch fod yn elusennau a chyfleu eu statws elusennol yn glir, gan gynnwys cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol perthnasol a'r effaith ar eu gweithrediadau. Mae colegau addysg bellach yn elusennau esempt, lle mae eu rhwymedigaethau cyfreithiol yr un fath. Mae hyn yn cynnwys corfforaethau addysg bellach yng Nghymru y mae Gweinidogion Cymru'n brif reoleiddiwr iddynt (gan gynnwys Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant).

DRAFT

**Strategaeth y Gymraeg**
Strategaeth a gyhoeddir ac a gynhelir gan gorff llywodraethu darparwr (neu gyfwerth) sy'n nodi'r ffordd y bydd y darparwr yn cymryd pob cam rhesymol i hybu'r Gymraeg, yn unol â'r gofynion a nodir o dan Amod y Gymraeg.

**Strwythur Grŵp**
Cyfluniad sefydliadol neu gyfreithiol darparwr gydag endidau cysylltiedig, a ddefnyddir i asesu cysylltiadau a rhwymedigaethau ariannol fel rhan o werthusiad o gynaliadwyedd ariannol.

**Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol**
Y corff annibynnol sy'n adolygu cwynion gan fyfyrwyr mewn addysg uwch yng Nghymru a Lloegr.

**Swyddog Archwilio Gweithredol**
Y rôl arwain sy'n gyfrifol am reoli pob agwedd ar y swyddogaeth archwilio mewnol yn effeithiol a sicrhau perfformiad ansawdd gwasanaethau archwilio mewnol h.y. pennaeth archwilio mewnol. Gall teitl a/neu gyfrifoldebau penodol y swydd amrywio ar draws darparwyr. Diffinnir hyn gan Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol yn y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang a gyhoeddwyd ganddynt yn 2024.

**Swyddog Atebol**
Yr uwch unigolyn o fewn darparwr sy'n gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir â gofynion rheoleiddio. Y Swyddog Atebol yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer Medr ym materion sicrwydd, ymyrraeth ac atebolrwydd darparwyr. Yn absenoldeb Swyddog Atebol, rhaid dirprwyo'r awdurdod hwn fel y bo'n briodol.

**Sylw Dyladwy i Gyngor a Chanllawiau**
Dylai cyrff llywodraethu darparwyr roi ystyriaeth briodol i'r cyngor a'r canllawiau a'u heffaith, ar gyfer y darparwr gan gynnwys ar unrhyw benderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud. Nid oes angen i gyrff llywodraethu fabwysiadu'r cyngor a'r canllawiau o reidrwydd, er enghraifft os nad ystyrir eu bod yn berthnasol i gyd-destun y darparwr, ond rhaid iddynt allu darparu tystiolaeth bod yr ystyriaeth briodol hon wedi digwydd (os gofynnir amdani).

**Tarfu ar Ddysgu**
Amgylchiadau sy'n atal dysgwyr rhag parhau â'u hastudiaethau neu eu cwblhau, gan gynnwys methiant sefydliadol, cau cwrs/campws, neu ddigwyddiadau eraill a allai fod â'r potensial i gael effaith negyddol ar ddysgwyr.

**Tîm Gweithredol Uwch**
Y lefel uchaf o arweinyddiaeth a rheolaeth o fewn darparwr sy'n gyfrifol am weithredu strategaeth y darparwr a rheolaeth a gweithrediadau'r darparwr ar y cyfan ac sy'n atebol yn y pen draw i gorff llywodraethu'r darparwr.

**Trais**
Mae trais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys gweithredoedd sy'n achosi niwed neu'n bygwth niwed i berson arall fel y nodir yn Neddf Troseddau Corfforol 1861, Deddf Trefn Gyhoeddus 1986, a statudau eraill. Mae hefyd yn cynnwys trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol fel y'u dehonglir yn Adran 24 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin

Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae hyn yn cynnwys trais rhwng dysgwyr, staff, neu drydydd partïon, a gall ddigwydd ar y campws; mewn campysau rhithwir; a llety sy'n cael ei lesio, ei feddiannu neu a berchnogir gan y darparwr, neu yn ystod gweithgareddau ar y safle neu oddi ar y safle o dan oruchwyliaeth y darparwr.

### Trefniadau Breiniol

Trefniadau rhwng darparwr cofrestredig a darparwr addysg arall lle mae'r darparwr cofrestredig yn darparu addysg uwch i ddysgwr ar ran y darparwr arall neu'n awdurdodi'r darparwr arall i ddarparu addysg uwch i ddysgwr ar ei ran. Cyfeirir at y rhain hefyd fel trefniadau is-gontractio.

### Trefniant Dilysu

Trefniadau rhwng darparwr addysg drydyddol sy'n gwneud cais a darparwr addysg arall lle mae'r darparwr addysg drydyddol sy'n gwneud cais yn dyfarnu cymhwyster i fyfyriwr yn y darparwr arall neu'n awdurdodi'r darparwr arall i ddyfarnu cymhwyster ar ei ran.

### Trosedd Casineb

Unrhyw drosedd sydd, yn ôl canfyddiad y dioddefwr neu unrhyw berson arall, yn un a ysgogwyd gan elyniaeth neu ragfarn, yn seiliedig ar anabledd gwirioneddol neu anabledd canfyddedig; hil gwirioneddol neu hil canfyddedig; neu grefydd wirioneddol neu grefydd ganfyddedig; neu gyfeiriadedd rhywiol gwirioneddol neu gyfeiriadedd rhywiol canfyddedig neu hunaniaeth drawsryweddol wirioneddol neu hunaniaeth drawsryweddol ganfyddedig person. Mae hyn yn adlewyrchu'r diffiniad a ddefnyddir ar hyn o bryd gan yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Mae'n bosibl y gellir diweddaru'r diffiniad hwn a gytunwyd o bryd i'w gilydd, felly dylai darparwyr gyfeirio at arweiniad diweddaraf Gwasanaeth Erlyn y Goron neu'r heddlu wrth roi'r diffiniad hwn ar waith.

### Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol[2]

Sefydliad sy'n gweithio gyda cholegau addysg bellach, prifysgolion, sefydliadau sy'n cynnig prentisiaethau, a chyflogwyr i greu cyfleoedd i hyfforddi ac astudio yn Gymraeg yw'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae gan Medr Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Coleg sydd wedi'i ddynodi i roi cyngor i Medr ar ei ddyletswydd strategol i hybu addysg drydyddol trwy gyfrwng y Gymraeg.

### Y Comisiwn Elusennau

Un o adrannau Llywodraeth y DU sy'n rheoleiddio elusennau cofrestredig yng Nghymru a Lloegr.

### Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Cymru)

Dyletswydd statudol sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus penodedig ystyried sut y gall penderfyniadau strategol leihau anghydraddoldebau mewn deilliannau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae Medr wedi ymrwymo i 'weithredu yn ysbryd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol' a bydd yn cyflawni'r ddyletswydd hon trwy osod disgwyliadau cysylltiedig ar y rhai y mae'n eu rheoleiddio a'u cyllido.

### Ymarfer Cynhwysol

Dull o ddarparu addysg sy'n ceisio cael gwared ar rwystrau i gyfranogiad a chyflawniad ar gyfer pob dysgwr, yn enwedig y rhai o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol neu o dan anfantais.

---

[2] Wedi'i gynnwys fel sefydliad a ddynodwyd i roi cyngor i Medr

DRAFT

### Ymateb Cymesur
Egwyddor sy'n tanategu'r camau rheoleiddiol a gymerir gan Medr mewn perthynas â darparwyr, lle mae'r camau a gymerir yn briodol i natur, graddfa, a difrifoldeb y mater dan sylw.

### Ymchwil
Fel y nodir yn Llawlyfr Frascati y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, mae ymchwil a datblygu arbrofol yn cynnwys gwaith creadigol a wneir ar sail systematig er mwyn cynyddu'r stoc o wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth am bobl, diwylliant a chymdeithas – a dyfeisio ffyrdd newydd o gymhwyso'r wybodaeth sydd ar gael.

### Ymchwil Gymdeithasol
Ymchwil i sut y mae pobl yn ymddwyn ac yn rhyngweithio o fewn cymdeithas.  Yn Medr, mae ymchwil gymdeithasol yn debygol o gynnwys ymchwil gynradd a gomisiynir i ddeall effaith ein polisïau; adolygiadau o lenyddiaeth; arolygon o ddysgwyr, y gweithlu a rhanddeiliaid; a gwerthusiadau o'n rhaglenni a'n prosiectau.

### Ymgysylltu â Dysgu
Ennyn ymgysylltiad dysgwyr mewn modd gweithredol â phob agwedd ar eu taith addysgol bersonol, o gofrestru i gwblhau a dilyniant. Mae'r cysyniad hwn yn ganolog i strategaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac mae'n cael ei siapio gan rwymedigaethau cyfreithiol, fframweithiau rheoleiddio, a mentrau polisi cenedlaethol.

### Ymgysylltu â Dysgwyr
Cynnwys dysgwyr yn weithredol yn y broses o siapio eu haddysg, gwasanaethau cymorth a phrosesau penderfynu eu darparwyr.

### Ymrwymiad Ariannol
Mae ymrwymiadau ariannol, neu fenthyciadau, yn cyd-fynd â'r diffiniad a nodir o fewn arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y DU, megis safon adrodd ariannol 102 ('FRS 102') neu safonau olynol.

### Ymyriadau Penodedig ac Ymyriadau Amhenodedig
Pwerau Ymyrryd sydd ar gael i Medr o dan y Ddeddf. Mae ymyriadau penodedig wedi'u diffinio'n benodol mewn deddfwriaeth ac yn cynnwys camau gweithredu ffurfiol fel cyfarwyddydau, adolygiadau a dadgofrestru. Ni fanylir ar ymyriadau amhenodedig yn y Ddeddf ond gallant gynnwys monitro manylach, cynlluniau gweithredu, neu ysgogwyr cyllido a ddefnyddir i gefnogi cydymffurfedd a gwelliant.

### Yn Cael Ei Wneud Yn Gyfan Gwbl Neu'n Bennaf yng Nghymru
Mae Medr yn dehongli "yn cael ei wneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru" i gyfeirio at swmp y cynnwys a chanolbwynt gweithgareddau addysg drydyddol darparwr, gan gynnwys addysg drydyddol a ddarperir ar ei ran, yn unol ag Adran 144 o'r Ddeddf. Wrth ffurfio'r farn hon, gall Medr ystyried ystod o ddangosyddion. Mae'r ffactorau hyn yn cefnogi asesiad bod gweithgarwch darparwr yn cael ei wneud "yn gyfan gwbl neu'n rhannol" yng Nghymru:

- Mae wedi'i sefydlu'n gyfreithlon yng Nghymru
- Mae ei brif leoliad busnes yng Nghymru

DRAFT

- Mae ei weithgarwch addysgol sy'n seiliedig yn y DU yn cael ei wneud yn bennaf yng Nghymru, gan gynnwys addysg drydyddol a ddarperir ar ei ran (megis drwy darpariaeth freiniol neu is-gontract)

Gweler ein hamod ar “Statws fel Darparwr Addysg Drydyddol yng Nghymru” am esboniad pellach o'n dehongliad.

### Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch[3]

Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA), sef corff ansawdd annibynnol y DU ar gyfer sicrhau ansawdd darpariaeth addysg drydyddol. Yr Asiantaeth hon yw ceidwad cyfeirbwyntiau sy'n eiddo i'r sector, gan gynnwys Cod Ansawdd y DU, ac mae'n darparu canllawiau a gweithgareddau gwella ledled y DU yn ogystal ag adolygiadau sy'n cydymffurfio â Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd trwy wahanol swyddogaethau fesul gwlad.

### Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Y corff cenedlaethol a fydd yn cael ei sefydlu o dan Adran 38 o Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, i gefnogi pobl i ddysgu Cymraeg, a hwyluso eu cynnydd, er mwyn i fwy o bobl (o bob oed) ddysgu'r iaith. Bydd yr Athrofa yn disodli Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

DRAFT

Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau cyffredinol i gefnogi dealltwriaeth o Fframwaith Rheoleiddio Medr. Nid yw'n disodli nac yn diystyru'r gofynion statudol a nodir yn y Ddeddf, rheoliadau cysylltiedig, na'r amodau rheoleiddio a gyhoeddwyd gan Medr. Os bydd unrhyw anghysondeb, y darpariaethau statudol a'r amodau rheoleiddio a gyhoeddwyd yn ffurfiol a gaiff flaenoriaeth.

[3] Wedi'i gynnwys am fod yr Asiantaeth hon yn cynnal gweithgareddau ansawdd

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**